

Rhybudd Preifatrwydd Menter Môn

Pam a sut yr ydym yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol?

Mae Menter Môn wedi ymrwymo i warchod eich preifatrwydd pan rydych yn gweithio gyda ni neu yn defnyddio ein gwasanaethau. Mae'r rhybudd preifatrwydd hwn yn esbonio sut a pham yr ydym yn defnyddio a gwarchod eich gwybodaeth bersonol chi, a beth yw eich hawliau fel unigolion.

1. Beth ydi Gwybodaeth bersonol?

Gwybodaeth bersonol: Mae'r diffiniad o wybodaeth bersonol yn cynnwys unrhyw beth sy'n gallu cael ei ddefnyddio i adnabod unigolyn byw e.e. enw, dyddiad geni, cyfeiriad.

Gwybodaeth bersonol sensitif: Mae rhai mathau o wybodaeth bersonol yn fwy sensitif ac angen eu gwarchod gyda gofal ychwanegol. Yr enw mae'r Rheoliad Diogelu Data yn rhoi ar y math yma o wybodaeth yw 'gwybodaeth categori arbennig' ac mae hwn yn cynnwys :

- Bywyd rhywiol a rhywioldeb;
- Iechyd;
- Ethnigrwydd;
- Credoau gwleidyddol neu athronyddol;
- Aelodaeth o undeb lafur;
- Data genetig neu fiometreg;
- Cofnodion troseddol.

2. Pam rydym angen eich gwybodaeth chi?

Yn ddibynnol ar y prosiect neu'r gweithgareddau, rydym angen defnyddio eich gwybodaeth bersonol am resymau amrywiol e.e.

- Cynnig gwasanaethau;
- Marchnata;
- Rheoli gwasanaethau;
- Rhesymau cytundebol;
- Rhesymau cyfreithiol;
- Ateb gofynion grantiau a ffynonellau cyllidebol.

3. Hawl a Sail Gyfreithiol

Mae'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yn gosod 6 amod gyfreithiol sydd yn ein caniatáu i gasglu a defnyddio eich gwybodaeth bersonol, sef:

1. Prosesu yn unol â chaniatâd yr unigolyn;
2. Prosesu yn angenrheidiol ar gyfer contract;
3. Prosesu yn angenrheidiol i gydymffurfio â dyletswydd gyfreithiol;
4. Prosesu yn angenrheidiol er budd hanfodol yr unigolyn;
5. Prosesu yn angenrheidiol am ei fod yn ymgymryd â thasg sydd er budd cyhoeddus;
6. Prosesu yn angenrheidiol fuddiannau cyfreithlon (*legitimate interests*).

Rhan amlaf, bydd Menter Môn yn casglu eich gwybodaeth ar sail amod 1, 2 neu 3. Rhaid bod sail gyfreithiol dros gasglu a phrosesu'r wybodaeth. Byddwn bob amser yn rhoi gwybod i chi beth ydi'r amod gyfreithiol berthnasol yn ein rhybuddion preifatrwydd wrth gasglu'r wybodaeth gennych.

4. Rhannu Gwybodaeth

O bryd i'w gilydd bydd Menter Môn yn rhannu eich gwybodaeth bersonol gyda phartneriaid a sefydliadau allanol. Mae hyn yn ddibynnol ar ofynion ein prosiectau amrywiol. Byddwn bob amser yn dweud wrthyf os yw hyn yn digwydd a gyda phwy ar y pwynt o gasglu'r wybodaeth gennych. Os yw casglu'r wybodaeth yn seiliedig ar eich caniatâd chi, yna mae gennych hawl i wrthod i ni rhannu eich gwybodaeth ac eraill.

Weithiau mae gennym ddyletswydd gyfreithiol i rannu gwybodaeth gydag eraill e.e. Y Llysoedd, Yr Adran Waith a Phensiynau a HMRC. Gallwn hefyd rannu gwybodaeth gyda chyrrff allanol er mwyn canfod ac atal twyll.

5. Hawliau Unigolion

Mae'r gyfraith yn rhoi nifer o hawliau i chi fel unigolion o gwmpas sut mae eich gwybodaeth bersonol yn cael ei drin.

- [Hawl i gael gwybod](#)

Mae gennych hawl i gael gwybod pam a sut yr ydym ni yn prosesu eich data personol ar y pwynt pan fydd y wybodaeth yn cael ei gasglu. Bydd Menter Môn yn nodi datganiad preifatrwydd sy'n nodi hyn ar bob ffurflen casglu gwybodaeth.

- [Hawl i gael mynediad](#)

Mae gennych hawl i ofyn i gael gweld yr holl wybodaeth sydd gennym amdanoch chi. Cofiwch – ni fydd yn bosib i ni roi'r wybodaeth i chi bob amser. Ni fyddwn yn rhannu gyda chi os:

- Yw'r cofnod yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol am unigolion eraill;
- Yw gweithiwr proffesiynol yn credu gallai rhannu'r wybodaeth achosi niwed i'ch lles corfforol / meddyliol chi neu rywun arall;
- Byddai rhannu'r wybodaeth yn atal datrys trosedd.

Mae gennym hyd at fis i ymateb i'ch cais am wybodaeth. Mae trefn yn ei le i chi wneud cais i gael gweld eich gwybodaeth.

- [Hawl i gywiro gwybodaeth anghywir](#)

Os ydych yn credu bod gwybodaeth amdanoch yn anghywir ar ein cofnodion, mae gennych yr hawl i gysylltu â gofyn i ni ei gywiro. Mae'n bosib na fyddwn yn medru newid na dileu'r wybodaeth bob amser ond fe wnawn ni gywiro unrhyw beth sy'n ffeithiol anghywir.

- [Hawl i ddileu gwybodaeth \(right to be forgotten\)](#)

Mewn rhai achosion mae gennych yr hawl i ofyn i ni ddileu eich gwybodaeth, er enghraifft pan:

- Nad oes angen i ni gadw eich gwybodaeth bersonol mwyach - y wybodaeth ddim yn angenrheidiol ar gyfer y pwrpas gwreiddiol mwyach;
- Rydym yn ddibynnol ar eich caniatâd i brosesu'r wybodaeth ac rydych yn tynnu eich caniatâd yn ôl;
- Mae'r wybodaeth wedi ei ddefnyddio yn anghyfreithlon;
- Mae gofyn cyfreithiol i ddileu'r wybodaeth ;
- Rydych wedi gwrthwynebu prosesu eich gwybodaeth;
- Mae'r data wedi ei gasglu fel rhan o wasanaeth casglu gwybodaeth ar-lein i blant.

Mae rhai adegau na fyddwn yn medru dileu eich gwybodaeth:

- Os yw'n cael ei ddefnyddio ar gyfer mynegiant rhydd a gwybodaeth;
- Os oes gennym gyfrifoldeb cyfreithiol i'w gadw;
- Os yw'n cael ei defnyddio i bwrpasau iechyd cyhoeddus sydd er budd y cyhoedd;
- Os oes angen ei ddefnyddio i bwrpas archifol er budd y cyhoedd - ymchwil hanesyddol / ystadegol;
- Os oes ei angen ar gyfer hawliadau cyfreithiol y sefydliad.

- [Hawl i gyfyngu'r defnydd o'ch gwybodaeth bersonol](#)

Mae gennych yr hawl i ofyn i ni gyfyngu'r defnydd yr ydym yn ei wneud o'ch gwybodaeth bersonol. Gallwch wneud hyn yn y sefyllfaoedd canlynol:

- rydych wedi ein hysbysu bod gwybodaeth amdanoch yn anghywir ac rydym yn y broses o'i wirio;
- nid oes gennym hawl cyfreithiol i ddefnyddio'r wybodaeth ond rydych am i ni gyfyngu'r defnydd yn hytrach na'i ddileu'n gyfan gwbl
- nid oes gennym reswm i'w gadw ond rydych chi ei angen er mwyn sefydlu, gweithredu neu amddiffyn hawliad cyfreithiol
- Rydych wedi gwrthod i ni brosesu'r wybodaeth ac rydym yn y broses o ystyried os ydi ein seiliau cyfreithiol yn gorbwysu eich hawliau chi.

- [Hawl i symud eich gwybodaeth i ddarparwr arall \(data portability\)](#)

Mae gennych hawl i ofyn i gael copi o'ch gwybodaeth bersonol mewn fformat cyffredin neu cewch ofyn i'w gael ei drosglwyddo i ddarparwr arall. Gallwch wneud hyn os:

- Eich caniatâd chi neu gontract yw sail y prosesu;
- Mae'r prosesu yn digwydd yn awtomataidd gan gyfrifiadur.

- [Hawl i wrthwynebu prosesu gwybodaeth](#)

Mewn rhai achosion mae gennych yr hawl i wrthwynebu unrhyw brosesu. Gallwch wneud hyn:

- Os mai pwrpas y prosesu yw marchnata cyhoeddus;
- Os mai sail y prosesu yw buddion cyfreithlon neu dasg gyhoeddus;
- Os mai pwrpas y prosesu yw ymchwil neu ystadegau;

Ni fyddwn yn ateb y gofyn a oes:

- Rhesymau cyfreithlon dros brosesu
- Angen sefydlu, gweithredu neu amddiffyn hawliadau cyfreithiol

- Hawliau o ran penderfyniadau awtomataidd a phroffilio

Os oes unrhyw benderfyniadau yn cael eu gwneud amdanoch chi gan gyfrifiadur, heb unrhyw ymyrraeth gan berson, mae gennych yr hawl i gael gwybod a hefyd i ofyn am esboniad. Cewch hefyd gwestiynu'r penderfyniadau hyn oni bai fod angen gwneud hyn ar gyfer contract, bod gofyn cyfreithiol, neu rydych eisoes wedi rhoi caniatâd i hyn ddigwydd.

Mae gennych hefyd yr hawl i wrthwynebu i unrhyw 'broffilio.'

Bydd Menter Môn bob amser yn eich hysbysu os ydym yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol i'ch proffilio.

6. Diogelu eich gwybodaeth

Bydd Menter Môn bob amser yn cymryd camau priodol i warchod eich gwybodaeth bersonol sydd yn ein gofal. Mae gennym drefniadau gwaith a systemau mewn lle i reoli mynediad, trosglwyddo a dileu gwybodaeth mewn modd diogel. Mae staff yn cael eu hanwytho a hyfforddi i gadw gwybodaeth yn ddiogel a chydymffurfio gyda'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol.

7. Pa mor hir byddwn yn cadw eich gwybodaeth?

Mae gennym restr gadw a chofrestr Asedau yn datgan am ba mor hir y dylid cadw gwahanol fathau o wybodaeth. Mae'r cyfnodau yn amrywio o brosiect i brosiect ac yn aml yn ddibynnol ar ofynion grantiau ariannol. Bydd pa mor hir y bydd eich gwybodaeth yn cael ei gadw hefyd yn cael ei nodi fel rhan o'r rhybudd preifatrwydd ar unrhyw ffurflen casglu gwybodaeth.

8. Cysylltu

Am fwy o wybodaeth, neu i wneud cwyn, cysylltwch â [ymholiadau@mentermon.com](mailto:yholiadau@mentermon.com)
Neu am gyngor annibynnol am ddiogelu data, cysylltwch â'r Comisiynydd Gwybodaeth:
<https://ico.org.uk/make-a-complaint/your-personal-information-concerns/>

Rhybuddion Preifatrwydd Gwasanaethau a Phrosiectau Menter Môn

Arloesi Gwynedd Wledig - <https://www.arloesigwyneddwledig.cymru/gwybodaeth/>